# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 19 Ionawr 2006

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Trefnydd*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau penodol a gymerodd y Gweinidog i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yn 2005 o fewn ei maes cyfrifoldeb. (WAQ45455)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyrwyddo chwaraeon yng Nghymru. (WAQ45430)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Ai polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yw y dylai pawb yng Nghymru fod â mynediad da at gyfleusterau celfyddydol a cherddorol ledled Cymru. (WAQ45431)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu trafodaethau y mae wedi'u cynnal ynghylch chwarae Rownd Derfynol Cwpan yr FA yn Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd. (WAQ45432)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y bobl ifanc yng Nghymru sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon. (WAQ45433)

**Carl Sergeant (Alyn a Glannau Dyfrdwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfleusterau bowlio dan do yn y Gogledd. (WAQ45434)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Sut y mae'r Gweinidog yn asesu'r manteision sy'n deillio o gyllido diwylliant yng Nghymru gydag arian trethdalwyr. (WAQ45435)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyfleusterau chwaraeon cymunedol sydd ar gael i bobl anabl yng Nghymru. (WAQ45436)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y caiff cyfleusterau chwaraeon ysgolion eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau chwaraeon cymunedol ar ôl oriau ysgol. (WAQ45437)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau penodol a gymerodd y Gweinidog i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yn 2005. (WAQ45452)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau penodol a gymerodd y Gweinidog i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yn 2005 o fewn ei faes cyfrifoldeb. (WAQ45456)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf yngl•n â'r cynnydd gyda phrosiect Draig Goch Llywodraeth y Cynulliad. (WAQ45474)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa gamau a gymerwyd i liniaru'r tagfeydd traffig ar yr A4067 wrth nesáu at Gyffordd 45 yr M4. (WAQ45476)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a gynhaliwyd archwiliadau priodol gyda'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a Rhestr 99 ar gyfer holl weithwyr ysgolion y wladwriaeth yng Nghymru. (WAQ45438)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a fu unrhyw benodiadau i ysgolion Cymru a oedd yn cynnwys unrhyw un a gafwyd yn euog o droseddau rhyw ac, os yw hyn yn wir, a wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion llawn. (WAQ45439)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Faint o droseddwyr rhyw cofrestredig sy'n gweithio yn ysgolion Cymru ar ôl iddynt dderbyn caniatâd i wneud hynny gan un o Weinidogion y Llywodraeth. (WAQ45440)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa drefniadau sydd ar waith yng Nghymru i bennu pa mor addas yw pobl a enwir ar y gofrestr troseddwyr rhyw i weithio yn ysgolion Cymru. (WAQ45441)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gofrestr o droseddwyr rhyw sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio yn ysgolion Cymru sydd yn wahanol i gofrestr Adran Addysg y DU. (WAQ45442)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A oes pwynt terfyn pan fydd rhywun yn rhy hen i wneud cais am fenthyciad myfyriwr, os oes, beth yw'r oedran hwnnw. (WAQ45447)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw droseddwyr rhyw sy'n gweithio mewn ysgolion yng Nghymru. (WAQ45451)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau penodol a gymerodd y Gweinidog i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yn 2005 o fewn ei maes cyfrifoldeb. (WAQ45457)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a oes unrhyw un a enwir ar y gofrestr troseddwyr rhyw yn gweithio mewn ysgol yng Nghymru. (WAQ45475)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa swyddogaeth sydd gan y Gweinidog o ran pennu pa droseddwyr rhyw cofrestredig a enwir ar Restr 99. (WAQ45478)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau penodol a gymerodd y Gweinidog i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yn 2005 o fewn ei faes cyfrifoldeb. (WAQ45453)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Rhwng 1af Ionawr 2005 a 1af Ionawr 2006, faint yn fwy o garbon deuocsid a ryddhawyd i'r amgylchedd nag a fyddai wedi ei ryddhau pe na bai gwaharddiad ar gladdu oherwydd: (a) cludo stoc trig o ffermydd i safleoedd rendro/llosgyddion a (b) llosgi/rendro stoc trig y buasid fel arall wedi cael eu claddu ar y fferm. (WAQ45460)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gyfran o ffermydd gwartheg Cymru sy'n rhwym wrth flwyddyn neu ddwy o brofion ar gyfer TB, (WAQ45461)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd oedd Gr•p Gweithredu Cymru ar TB wedi argymell penodi rheolwr prosiect i ddatblygu mesurau i weithredu'r broses rheoli TB mewn gwartheg a phryd y dechreuodd y rheolwr prosiect yn ei swydd. (WAQ45462)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Dan ba amgylchiadau y gwnaiff y Gweinidog gyhoeddi trwydded i ladd moch daear fel adnodd i reoli TB mewn gwartheg. (WAQ45463)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ddull lladd a ddefnyddir i gael gwared ar foch daear petai trwydded yn cael ei chyhoeddi fel mesur i reoli TB mewn

gwartheg. (WAQ45464)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i gyflwyno Afancod Ewropeaidd yng Nghymru. (WAQ45465)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ganiatâd y byddai ei angen cyn y gellid mewnforio Afancod Ewropeaidd a'u rhyddhau i afonydd Cymru. (WAQ45466)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o ffermwyr baeddod gwyllt sydd yng Nghymru. (WAQ45467)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Dan ba amgylchiadau y ceir hela baeddod gwyllt yng Nghymru. (WAQ45468)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ganiatâd sydd ei angen i gyflwyno baeddod gwyllt yng nghefn gwlad Cymru. (WAQ45469)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Ers cyflwyno Nodyn Cyngor Technegol 15 ym mis Gorffennaf 2004, sawl caniatâd cynllunio a roddwyd pan yr oedd gwrthwynebiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd oherwydd bod 'perygl o lifogydd'. (WAQ45477)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau penodol a gymerodd y Gweinidog i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yn 2005 o fewn ei maes cyfrifoldeb. (WAQ45459)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A yw'r Gweinidog yn bwriadu comisiynu unrhyw ad-drefnu ar y Byrddau Iechyd Lleol yn dilyn y cyhoeddiad diweddar yn Lloegr y bydd Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol yn cael eu had-drefnu. (WAQ45417)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A yw'r Gweinidog yn disgwyl cyflawni'r targed o ddim cleifion yn disgwyl mwy na 12 mis erbyn Mawrth 2006. (WAW45418)

**Karen Sinclair (De Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant ac Oedolion (CAHMS) yng Ngogledd Cymru.  (WAQ45419)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu tuedd y

cwynion a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er 1999 o ran glendid mewn ysbytai. (WAQ45421)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb gyffuriau ar gyfer GIG Cymru. (WAQ45422)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth deg o ran triniaeth yn y GIG yng Nghymru. (WAQ45423)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl gwneud penderfyniad am ddyfodol niwrolawdriniaeth yn Abertawe. (WAQ45424)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â phroblem ymosodiadau ar weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. (WAQ45425)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth y Cynulliad i roi sylw i anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. (WAQ45426)

**Carl Sergeant (Alyn a Glannau Dyfrdwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth i gleifion canser yn Alyn a Glannau Dyfrdwy. (WAQ45427)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y defnyddir parafeddygon i gynorthwyo adrannau damweiniau sydd dan bwysau mawr. (WAQ45428)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n sicrhau bod ysbytai'r GIG yn gallu cynnig triniaethau digonol i'w cleifion. (WAQ45429)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Yn unol â'i ateb i WAQ44522, a wnaiff y Gweinidog nodi canran y staff sydd wedi cael eu cyfatebu a'u hymgorffori fel rhan o'r Agenda ar gyfer Newid, fel yr oedd ar ddiwedd Rhagfyr 2005. (WAQ45444)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Yn unol â'i ateb i WAQ44523, pa gynnydd sydd wedi'i wneud yn asesu a nodi unrhyw fylchau rhwng y cyllid a'r costau gwirioneddol sy'n gysylltiedig â rhoi'r Agenda ar gyfer Newid ar waith. (WAQ45445)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraddau canser yn ardal Afon Menai yng Ngogledd Cymru o gymharu â chyfraddau canser mewn ardaloedd eraill. (WAQ45446)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Sawl marwolaeth sydd wedi bod yng Nghymru o Glostridiwm difficile ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad. (WAQ45448)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Pa fesurau a pharatoadau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd a'u gweithredu i ddelio gydag achosion posibl o Glostridiwm difficile yn ysbytai Cymru. (WAQ45449)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Sawl achos o Glostridiwm difficile sydd wedi cael ei gofnodi yn ysbytai Cymru yn ystod y 6 mlynedd diwethaf ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad blynyddol. (WAQ45450)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau penodol a gymerodd y Gweinidog i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yn 2005 o fewn ei faes cyfrifoldeb. (WAQ45458)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw dargedau Gweinidogol penodol y mae wedi'u cyflwyno ar gyfer sicrhau amseroedd aros byrrach ar gyfer diagnosteg ar draws Cymru, a mynediad teg i'r gwasanaeth hwnnw. (WAQ45473)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd y mae'r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar epilepsi. (WAQ45479)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl marwolaeth o Gamddefnyddio Sylweddau Anweddol a gofnodwyd yng Nghymru ar gyfer pob un o'r 5 mlynedd diwethaf. (WAQ45443)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau penodol a gymerodd y Gweinidog i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yn 2005 o fewn ei maes cyfrifoldeb. (WAQ45454)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa raglen neu fframwaith sy'n bodoli i fynd i'r afael â Chamddefnyddio Sylweddau Anweddol yng Nghymru. (WAQ45470)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw gynlluniau i gyflwyno unrhyw raglen neu fframwaith i fynd i'r afael â Chamddefnyddio Sylweddau Anweddol. (WAQ45471)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A oes unrhyw gydweithio'n digwydd

rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Swyddfa Gartref ar gyfer delio gyda Chamddefnyddio Sylweddau Anweddol, ac a oes unrhyw gydweithio yn yr arfaeth. (WAQ